



Cardiff & Vale of Glamorgan
Pension Fund
Cronfa Bensiwn
Caerdydd a Bro Morgannwg



Polisi Gordaliadau a Thandaliadau

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Amcanion polisi	2
Diben y polisi	2
Dyddiad effeithiol ac adolygiadau	3
Cwmpas	3
Rheoli gordaliadau o bensiwn ar farwolaeth aelod o'r cynllun	3
Rheoli gordaliadau o bensiynau plant yn methu â dod i ben ar yr adeg briodol	3
Rheoli gordaliadau o bensiwn ar wybodaeth anghywir a ddarparwyd gan y cyflogwr mewn perthynas ag aelod o'r cynllun	4
Rheoli gordaliadau o bensiwn ar gyfradd anghywir o bensiwn a delir gan y Gronfa a gall yr Aelod fod yn rhesymol ymwybodol o'r gordaliad	5
Rheoli gordaliadau o bensiwn ar gyfradd anghywir o bensiwn a delir gan y Gronfa ac ni all yr Aelod fod wedi gwybod am y gordaliad	6
Disgresiwn i ddileu gordaliadau	6
Adennill	6
Cyfnod yr amser i adennill gordaliadau	7
Honiadau o anallu i ad-dalu gordaliadau	7
Monitro ad-daliadau	7
Awdurdod i ddileu gordaliadau	8
Gordaliadau o ganlyniad i Dwyll neu Lygredigaeth	8
Tandaliadau	8
Atal	8
Monitro Polisi	9

1. Cyflwyniad

- 1.1 Hwn yw'r Polisi Gordaliadau a Thandaliadau Pensiynau ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n cael ei reoli gan Gyngor Caerdydd (yr Awdurdod Gweinyddu).
- 1.2 Gall gordaliadau pensiwn ddigwydd am amryw o resymau. Mae'n bwysig bod gan y Gronfa bolisi clir ar sut mae gordaliadau pensiwn yn cael eu rheoli pan gânt eu nodi.
- 1.3 Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg (y Gronfa) yn cydnabod yr angen i fynd ati'n rhagweithiol i nodi unrhyw gamgymeriadau a wneir yn weinyddol ac mae ganddi hefyd reolaethau cadarn ar waith i gydnabod gweithgarwch twyllodrus posibl a allai sbarduno gordaliadau.

2. Amcanion polisi

2.1 Nod yr amcanion polisi yw sicrhau bod y Gronfa:

- Wedi sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn, i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau gwybodus, wedi'u hategu gan gyngor, polisiâu a strategaethau priodol, wrth sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth a chanllawiau statudol priodol
- Yn cael ei reoli mewn modd teg a chyfartal, gan ystyried yr hyn sydd er lles pennaf rhanddeiliaid y Gronfa, yn enwedig aelodau'r cynllun a chyflogwyr
- Yn sicrhau manteision, ac incwm yn cael ei gasglu gan, y bobl gywir ar yr adeg gywir yn y swm cywir
- Yn nodi gwallau cyn gynted ag y bo modd
- Yn unioni gordaliadau gyda chydweithrediad yr unigolyn
- Yn annog unigolion i gymryd rôl weithredol wrth wirio slipiau cyflog/taliadau am wallau amlwg; ac
- Yn osgoi'r angen i uwchgyfeirio materion drwy'r Weithdrefn Datrys Anghydfod Mewnol (IDRP), lle y bo'n bosibl, drwy reoli'r broses yn effeithiol

3. Diben y polisi

3.1 Bwriad y polisi yw darparu sicrwydd i aelodau'r Gronfa, Cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill y gronfa bod:

- pob gordaliad yn cael ei drin mewn modd teg a chyfartal
- ystyriaeth briodol wedi bod i adfer gordaliadau sydd wedi digwydd ond mae'n cydnabod y gall fod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol);
- a bod camau ar waith i atal a hefyd ymchwilio i weithgarwch twyllodrus posibl

4. Dyddiad effeithiol ac adolygiadau

4.1 Adolygwyd y polisi a daeth i rym o 27 Ionawr 2020.

5. Cwmpas

5.1 Mae'r polisi yn berthnasol i:

- Yr holl aelodau a chyn-aelodau, sydd yn y polisi hwn yn cynnwys aelodau'r goroeswr a chredyd pensiwn Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi cael un neu fwy o daliadau o'r gronfa honno;
- Ysgutorion Ystadau aelodau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi marw
- Buddiolwyr Aelodau Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg lle mae'r buddiolwyr hynny wedi derbyn un neu fwy o daliadau o'r Gronfa honno
- Gweinyddwyr y cynllun; a'r
- Pwyllgor Pensiynau

6. Mathau ar ordaliadau

6.1 Rheoli gordaliadau o bensiwn ar farwolaeth aelod o'r cynllun

- Fel y gellir deall, nid yw hysbysiad o farwolaeth aelod-bensiynwr o'r cynllun bob amser yn digwydd ar unwaith, ac o'r herwydd nid yw bob amser yn bosibl atal talu'r pensiwn ar ôl pwynt yn ystod mis y gyflogres ac felly gall gordaliad ddigwydd
- Os digwydd gordaliad o bensiwn o ganlyniad i farwolaeth aelod o'r cynllun, bydd y Gronfa yn gyffredinol yn ceisio adennill gordaliadau sy'n fwy na £100.00 (gros) o werth oni bai bod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na all y gordaliad, yn ymarferol, gael ei adennill (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa yn ystyried bod gwerth o £100.00 neu lai yn achos marwolaeth aelod o'r cynllun yn aneconomaidd i'w dilyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, dull y Gronfa fydd trin y swm a gaiff ei ddileu fel rhwymedigaeth yn erbyn cyn-gyflogwr yr aelod o'r cynllun
- Ymdrinnir â phob gohebiaeth ynghylch gordaliad mewn modd sensitif yn ystod y camau cyntaf oherwydd yr amgylchiadau sy'n ymwneud â sut y digwyddodd y gordaliad
- Bydd y Gronfa'n codi anfoneb i adennill gordaliad sy'n fwy na £100.00 pan fydd aelod o'r cynllun yn marw

6.2 Rheoli gordaliadau o bensiynau plant sy'n methu â dod i ben ar yr adeg briodol

- Mae gan blentyn cymwys fel y'i diffinnir yn Rheoliadau LGPS 2013, yr hawl i gael pensiwn hyd nes y bydd eu hamgylchiadau yn newid ac nad ydynt bellach yn gymwys i gael pensiwn o'r Gronfa.

- Yn yr achosion hyn yr unigolyn sy'n cael y pensiwn sy'n gyfrifol am hysbysu'r gronfa o newid mewn amgylchiadau i sicrhau bod y pensiwn yn dod i ben ar yr adeg briodol, byddai methu gwneud hynny yn arwain at ordaliad. Os digwydd gordaliad o bensiwn o ganlyniad i hysbysiad hwyr o newid yn yr amgylchiadau, bydd y Gronfa yn gyffredinol yn ceisio adennill gordaliadau sy'n fwy na
- £100.00 (gros) o ran gwerth oni bai bod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa o'r farn bod gwerth £100.00 neu lai yn un aneconomaidd i'w ddilyn. Mewn amgylchiadau o'r fath, dull y Gronfa fydd trin y swm a gaiff ei ddileu fel rhwymedigaeth yn erbyn cyn-gyflogwr yr aelod o'r cynllun
- Bydd y Gronfa'n codi anfoneb i adennill y gordaliad sy'n fwy na £100.00 o ganlyniad i hysbysiad hwyr o'r newid mewn amgylchiadau. Bydd yr anfoneb yn cael ei hanfon at yr unigolyn y talwyd pensiwn y plentyn i mewn i'w gyfrif banc

6.3 Rheoli gordaliadau o bensiwn yn dilyn gwybodaeth anghywir a ddarparwyd gan y cyflogwr mewn perthynas ag aelod o'r cynllun

- Os digwydd gordaliad o bensiwn o ganlyniad i wybodaeth anghywir a ddarparwyd gan gyflogwr aelod y cynllun ar ymddeoliad, yn gyffredinol bydd y Gronfa yn ceisio adennill
- arian sydd werth £100.00 (gros) oni bai bod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa o'r farn bod gwerth £100.00 (gros) neu lai yn un aneconomaidd i'w ddilyn.
- Bydd gordaliadau sy'n fwy na £100.00 mewn gwerth yn cael eu hadennill drwy bensiwn parhaus aelod o'r cynllun gan fod hyn yn caniatáu'r addasiad priodol ar gyfer treth. Caiff y pensiwn ei ostwng i'r lefel gywir ar gyfer y taliad pensiwn misol nesaf sydd ar gael ar ôl cyfnod rhybudd o 4 wythnos. Bydd aelod o'r cynllun yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am y camgymeriad a'r camau sydd i'w cymryd
- Lle nad oes pensiwn parhaus y gellir didynnu'r swm gormodol ohono, bydd anfoneb yn cael ei drefnu gan y Gronfa i adennill y gordaliad sy'n fwy na £100.00 o ran gwerth

6.4 Rheoli gordaliadau o bensiwn o ganlyniad i gyfradd anghywir y pensiwn a delir gan y Gronfa a gellir dweud bod yr aelod yn rhesymol ymwybodol o'r gordaliad.

- Mae nifer o resymau pam y gallai pensiwn gael ei dalu ar gyfradd uwch anghywir. Rhoddir manylion o'r rhesymau mwyaf cyffredin yn y tabl isod ond dylid nodi nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr

	Mathau ar ordaliad	Sut mae gordaliad wedi digwydd
1	Gwall gweinyddol wrth greu cofnod cyflogres	Cyfradd anghywir (gorddatgan) o bensiwn wedi'i fewnbynnu i gofnod y gyflogres ond bod yr Aelod yn cael gwybod yn ysgrifenedig y gyfradd gywir o bensiwn i'w thalu.
3	Hawl i roi'r gorau i bensiwn	Nid yw hysbysiad nad yw pensiwn plentyn bellach yn daladwy gan fod y plentyn 18 oed neu hŷn bellach mewn addysg amser llawn neu hyfforddiant galwedigaethol.
4	Yr hawl i'r gyfradd pensiwn bresennol yn peidio â bod	Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi yn cael ei dderbyn ar ôl y dyddiad gweithredu sy'n golygu bod y pensiwn wedi'i ordalu ers y dyddiad gweithredu hwnnw.
5	Methiant i weithredu addasiad i gofnod y gyflogres/gostyngiad mewn pensiwn	Methu â gweithredu'r newid o'r pensiwn dibynyddion tymor byr uwch i'r gyfradd hirdymor is.

Os yw aelod o'r cynllun wedi cael ei hysbysu am y gyfradd pensiwn gywir yn ysgrifenedig a'i fod yn cael swm uwch, gellir dweud y gall yr aelod fod yn rhesymol ymwybodol ei fod yn cael ei dalu'n ormodol gan fod yr aelod o'r cynllun wedi'i hysbysu o'r gyfradd gywir yn ysgrifenedig.

- 6.5** Felly bydd y Gronfa yn gyffredinol yn ceisio adfer arian sy'n uwch na £100.00 gros oni bai bod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na ellir adennill y gordaliad, yn ymarferol, (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Mae'r Gronfa o'r farn bod gwerth £100.00 (gros) neu lai yn un aneconomaidd i'w ddilyn oherwydd yr amser gweinyddol y byddai'n cymryd.
- 6.6** Bydd y swm yn cael ei adennill o bensiwn parhaus yr aelod o'r cynllun gan fod hyn yn caniatáu ar gyfer yr addasiad priodol ar gyfer treth. Caiff y pensiwn ei ostwng i'r lefel gywir ar gyfer y taliad pensiwn misol nesaf sydd ar gael ar ôl cyfnod rhybudd o 4 wythnos, a chaiff ei hysbysu yn ysgrifenedig o'r gwall a'r camau i'w cymryd.
- 6.7** Lle nad oes pensiwn parhaus y gellir didynnu'r swm gormodol ohono, bydd anfoneb yn cael ei drefnu gan y Gronfa i adennill y gordaliad sy'n fwy na £100.00 o ran gwerth.

7 Rheoli gordaliadau o bensiwn yn dilyn cyfradd anghywir o bensiwn a delir gan y Gronfa a gellir dweud na all yr Aelod fod wedi gwybod am y gordaliad

7.1 Mae'r tabl isod yn dangos sut y gall gordaliad o bensiwn aelod ddigwydd heb i'r aelod fod yn ymwybodol. Dylid nodi nad yw'r tabl isod yn rhestr gyflawn;

	Mathau ar ordaliad	Sut mae gordaliad wedi digwydd
1	Gwall gweinyddol wrth gyfrifo a hysbysu am hawl i fudd-dal (gan gynnwys pensiynau dibynyddion)	Cyfradd anghywir (gorddatgan) o bensiwn wedi'i mewnbynnu ar gofnod y gyflogres a hysbysu'r Aelod yn ysgrifenedig am y gyfradd pensiwn anghywir sydd i'w thalu.
2	Lefel anghywir o Bensiwn Lleiafswm Gwarantedig yn cael ei thalu	Mae gwybodaeth newydd gan CThEM yn arwain at gyfradd ddiwygiedig o Bensiwn Lleiafswm Gwarantedig i'w defnyddio sydd, oherwydd y ffordd wahanol mae costau byw yn cael eu cymhwyso i'r GMP a'r gormodedd dros Bensiwn Lleiafswm Gwarantedig, yn golygu, yn gyffredinol, y dylai lefel is o gynnydd pensiynau fod wedi cael ei dalu.
3	Cynnyddu Symiau Pensiwn	Cynnydd mewn Pensiynau yn cael eu cymhwyso'n anghywir i elfennau pensiwn sy'n cael ei dalu.

7.2 Mewn amgylchiadau lle'r oedd y gordaliad wedi digwydd o ganlyniad i wall lle na allai'r Pensiynwr fod wedi bod yn ymwybodol o'r camgymeriad, byddem yn rhoi gwybod i bensiynwr am y gordaliad, byddai taliadau pensiwn yn cael eu cywiro, fodd bynnag, ni fyddai'r swm a ordalwyd yn cael ei adennill.

8 Disgresiwn i ddileu gordaliadau

8.1 Ar gyfer yr holl senarios a nodir uchod, mae gan swyddogion y gallu i arfer disgresiwn os ceir rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eithriadol ac i sicrhau na chaiff unrhyw unigolyn ei drin yn annheg. Os oedd mynd ati i adennill gordaliad yn achosi caledi a/neu os oes rhesymau cyfreithiol pam na ellir adennill y gordaliad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), byddai hyn yn cael ei ystyried, yn ogystal â chost effeithiolrwydd yr adferiad. Ymchwilir i bob cais a gyflwynir i ddileu gordaliad fesul achos a chaiff y penderfyniad terfynol ei wneud gan y swyddog priodol a restrir yn adran 16, yn dibynnu ar y swm a gaiff ei ddileu o bosibl. Caiff gordaliadau lle mae caledi wedi'i sefydlu eu cyflwyno i'w dileu drwy'r sianelau priodol.

9 Adennill

9.1 Mae Deddf Cyfyngiadau 1980 yn datgan "*Ni fydd gweithred sy'n seiliedig ar gontract syml yn cael ei dwyn ar ôl i chwe blynedd ddod i ben o'r dyddiad y mae achos y weithred yn cronni*". Fodd bynnag, mae adran 32 (1) o'r Ddeddf i bob pwrpas yn 'gohirio' y dyddiad erbyn pryd y caiff awdurdod gweinyddu wneud hawliad i adennill arian o dan amgylchiadau penodol. Mae'n datgan "*Ni fydd y cyfnod o gyfyngiad yn dechrau rhedeg hyd nes bod yr achwynydd wedi darganfod y twyll, y celu neu'r camgymeriad (yn ôl yr achos) neu a allai gyda diwydrwydd rhesymol wedi ei ddarganfod*". Caiff effaith bosibl adran 32 (1) mewn perthynas ag unrhyw ordaliad a'i adfer ei hystyried ar sail pob achos unigol.

9.2 Felly bydd y Gronfa yn gyffredinol yn ceisio adennill gordaliadau a ddarganfuwyd o fewn y 6 blynedd diwethaf gyda'r gohiriad perthnasol wedi'i gymhwyso Os yw'n berthnasol, yn unol â'r Ddeddf Cyfyngiadau, oni bai bod rhesymau cyfreithiol a/neu amgylchiadau eraill sy'n golygu na all y gordaliad, yn ymarferol, gael ei adennill (yn gyfan gwbl neu'n rhannol).

9.3 Mae enghreifftiau o gyfnodau cyfyngu a sut maent yn gweithredu mewn perthynas â gordaliadau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 y polisi hwn.

9.4 Dylid cadw mewn cof, lle mae'r Gronfa yn ceisio adennill gordaliadau, y gall fod dadleuon ynghylch pam na ddylai'r gordaliad gael ei adennill (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Bydd angen ystyried y rhain ar sail pob achos unigol ac, os byddant yn llwyddiannus, gallant effeithio ar allu'r gronfa i adennill y gordaliad (yn gyfan gwbl neu'n rhannol).

10 Cyfnod yr amser i adennill gordaliad

10.1 Bydd y Gronfa yn caniatáu i ordaliad pensiwn gael ei adennill dros yr un faint o amser ag y digwyddodd y gordaliad. Er enghraifft, pe bai gordaliadau yn cael eu gwneud am gyfnod o 3 mis, y cyfnod adfer ar gyfer ad-dalu'r gordaliad fydd 3 mis. Os bydd dadleuon rhesymol yn cael eu codi y dylid ymestyn y cyfnod adfer, gall y Gronfa yn ôl ei disgresiwn ganiatáu estyniad yn seiliedig ar amgylchiadau'r unigolyn; yn gyffredinol, ni fyddai estyniad o'r fath yn fwy na 50% pellach o'r cyfnod y digwyddodd y gordaliad, gyda lle i ymestyn y cyfnod hwn yn seiliedig ar amgylchiadau'r aelod o'r cynllun.

11 Honiadau o anallu i ad-dalu gordaliadau

11.1 Mewn achosion lle honnir na ellir ad-dalu gordaliad bydd swyddogion y Gronfa yn cychwyn trafodaethau gydag aelod y cynllun/perthynas agosaf a bydd dadansoddiad o gost-effeithiolrwydd mynd ar drywydd y gordaliad yn cael ei wneud fesul achos. Ar gyfer gordaliadau mawr, lle y bo'n briodol, bydd y Gronfa yn ceisio cyngor cyfreithiol. Bydd y dull hwn yn lleihau nifer y ceisiadau am Weithdrefnau Datrys Anghydfod Mewnol ac atgyfeiriadau i'r Ombwdsmon Pensiynau. Ar gyfer unrhyw achosion sy'n cyrraedd yr Ombwdsmon Pensiynau, byddai Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi dangos eu bod yn ymgysylltu ac yn negodi gyda'r achwynydd. Ar gyfer yr holl ordaliadau lle y profwyd caledi, bydd y cyfan neu ran o'r ddyled yn cael ei dileu yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

12 Monitro ad-daliadau

12.1 Mewn achosion lle nad yw adferiad yn digwydd drwy'r gyflogres a bod anfoneb wedi'i chodi, Tîm Adennill Dyledion y Cyngor sy'n gyfrifol am fynd ar drywydd y taliad. Os cyhoeddir nodyn atgoffa terfynol, hysbysir swyddogion a gwneir penderfyniad gan y rheolwr pensiynau a'r Prif Swyddog Pensiynau i benderfynu a ddylid cymryd camau cyfreithiol, gan ystyried y swm a'r amgylchiadau yn erbyn y posibilrwydd o gymryd camau cyfreithiol.

13 Awdurdod i ddileu gordaliadau

13.1 Yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, bydd y Gronfa yn gweithredu'r lefelau canlynol o awdurdod wrth ddileu gordaliadau:

Cyfanswm gwerth y gordaliad	Awdurdod i ddileu gordaliadau
Dim mwy na £100.00 (gros) ar farwolaeth pensiynwr Dim mwy na £100.00 (gros) ar unrhyw fath arall o ordaliad	Dileu awtomatig
Hyd at £5,000.00 (gros)	Rheolwr Pensiynau
Hyd at £10,000.00	Rheolwr Gwasanaethau Refeniw
£10,000.00+ (gros)	Swyddog Adran 151 Cyngor Caerdydd

14 Gordaliadau o ganlyniad i Dwyll neu Lygredigaeth

Ar adegau prin, gellir gordalu budd-daliadau'r aelodau oherwydd:

- Twyll gan yr aelod neu ei ystâd
- Twyll gan y cyflogwr
- Twyll gan swyddog pensiynau
- Gweithgaredd troseddol arall fel blacmel neu lygredigaeth

Pan ganfyddir bod gordaliad wedi'i wneud oherwydd twyll neu unrhyw weithred droseddol arall, bydd y pensiwn yn cael ei atal a gwneir ymdrech i adennill y gordaliad o bensiwn a chyfandaliad ar unwaith.

Bydd Cyngor Caerdydd yn cynnwys archwiliad mewnol mewn achosion o'r fath a gallai'r setliad o ordaliadau gael ei ddatrys gan Lysoedd y Gyfraith.

15 Tanddaliadau

15.1 Pe bai tanddaliad i bensiwn ddigwydd, unionir unrhyw danddaliadau pensiwn yn y cyfnod talu nesaf ar ôl nodi'r tanddaliad.

15.2 Bydd llog yn cael ei dalu ar y swm(symiau) tандаledig yn unol â Rheoliadau LGPS. Caiff llog ei dalu ar daliadau pensiwn sy'n fwy nag 1 flwyddyn yn hwyr, ac ar daliadau cyfandaliad sydd dros 1 mis yn hwyr. Cyfrifir y llog sy'n daladwy ar un y cant yn uwch na'r gyfradd sylfaenol o ddydd i ddydd o'r dyddiad talu dyledus a'i gompowndio bob tri mis.

16 Atal

16.1 Mae gan y gronfa brosesau ar waith er mwyn lleihau'r risg o ordaliadau.

16.2 Cynhelir y Fenter Twyll Genedlaethol bob dwy flynedd; mae'n cymharu ffeiliau pensiynwyr â chronfa ddata Adran Gwaith a Phensiynau'r ymadawedig ac mae'n amlygu cydweddiadau ar gyfer ymchwilio. Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cymryd rhan weithredol yn y fenter hon.

16.3 Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cymryd rhan mewn gwiriadau bywyd tramor i sicrhau mai dim ond pensiynau cyfreithlon sy'n cael eu

talun ac i leihau'r tebygolrwydd o weithgarwch twyllodrus. Cynhelir gwiriadau sgrinio marwolaethau bob mis trwy Atmos. Mae hysbysiadau misol yn cael eu derbyn oddi wrth Dweud Wrthym Unwaith (gwasanaeth y llywodraeth sy'n caniatáu i chi ddweud yn hawdd wrth sawl adran ar yr un pryd bod rhywun wedi marw. Darperir y gwasanaeth gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau)

16.4 Cynhelir adroddiad o bryd i'w gilydd ar y system gweinyddu pensiynau er mwyn adnabod unigolion sy'n cael pensiwn plentyn, cynhelir ymchwiliadau pellach wedyn i blant y nodir eu bod dros 18 oed er mwyn sicrhau bod ganddynt hawl o hyd i gael pensiwn.

16.5 Mae Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn cynnwys nodiadau atgoffa yn ei ohebiaeth bod yn rhaid i'r Gronfa gael gwybod am newidiadau mewn amgylchiadau neu farwolaeth aelod o'r cynllun. Os caiff slip cyflog ei ddychwelyd i Dîm y Gyflogres byddant yn parhau i wneud taliadau ond yn atal pob gohebiaeth i'r cyfeiriad hwnnw. Os bydd arian yn cael ei ddychwelyd gan y banc bydd y Gyflogres yn anfon llythyr i'r cyfeiriad cartref i ymchwilio iddo.

16.6 Mae gan swyddogion y gronfa system gadarn ar waith ar gyfer nodi newidiadau i'r gyflogres y mae angen eu prosesu ar gyfer mis cyflogres penodol. Mae'r broses yn ymgorffori terfynau amser y gyflogres ac yn sicrhau y gwneir newidiadau mewn modd cywir ac amserol. Byddai hyn mewn amgylchiadau megis newid o bensiwn dibynnydd tymor byr i bensiwn tymor hir.

17 Monitro Polisi

19.1 Caiff y polisi hwn ei adolygu'n ffurfiol bob blwyddyn, ond gellir ei adolygu'n amlach a'i ddiwygio os yw'n briodol ar gais y Pwyllgor Pensiynau.